Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych

Crynodeb o'r Ymateb wrth Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Ionawr – Chwefror 2020

Cyhoeddwyd 28 Ebrill 2020

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Rhagair

Diolch yn fawr iawn i chi am eich amser a'ch cyfraniadau yn ystod y cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor a gynhaliwyd ym mis Ionawr a mis Chwefror eleni.

Roeddem wrth ein bodd â’r ymateb a gawsom gan ein trigolion ac yn gyffrous iawn i glywed eich syniadau i’r Cyngor ond hefyd y gweithgareddau y mae ein trigolion eisoes yn ymgymryd â nhw eu hunain yn eu cymunedau.

Bydd eich syniadau a’ch adborth yn ein helpu i ddatblygu Strategaeth Newid Hinsawdd a’r Argyfwng Ecolegol a Chynllun Gweithredu ar gyfer y Cyngor er mwyn i ni gyrraedd ein nodau ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030.

Gwyddom o bosibl na fydd modd i'r gwaith ddatblygu mor gyflym ag y gobeithiwyd yn wreiddiol oherwydd effaith arwyddocaol pandemig y coronafeirws ar y Cyngor. Fodd bynnag, rydym yn parhau yn ymroddedig i’n nodau ac yn edrych ymlaen at weithio gyda’n cymunedau i’w cyflawni.

Y Cynghorydd Brian Jones

Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a’r Amgylchedd

Y Cyng Graham Timms

Cadeirydd y Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol

Y Cyng Tony Thomas

Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Cynnwys

Rhagair **2**

Cynnwys **3**

Cefndir Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych **5**

Cyngor di-garbon net 5

Cyngor Ecolegol Gadarnhaol 6

Cyrraedd ein nodau 7

Cefndir y cyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd ar gyfer yr Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol **8**

Beth a ofynnom 8

Sut y gwnaethoch gyfrannu 8

Nifer yr ymatebion a’r adborth a gyflwynwyd **9**

Cyfarfodydd cyhoeddus 9

Ar-lein a dros E-bost 9

Twitter a Facebook 9

Yr hyn a ddywedoch wrthym **10**

Adborth cyffredinol am nodau’r Cyngor i fod yn ddi-garbon net ac ecolegol gadarnhaol10

“Credaf ei bod yn wych bod camau yn cael eu cymryd tuag at fod yn garbon niwtral. Rwy’n cefnogi yn arbennig y cynllun i warchod ein mannau gwyrdd, hyrwyddo mynediad i natur a phlannu mwy o goed i gynyddu bioamrywiaeth”.

Syniadau ar gyfer polisïau yn ein strategaeth 17

Syniadau ar gyfer prosiectau yn ein cynllun gweithredu 22

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Beth allai unigolion, cymunedau a busnesau ei wneud 30

Pynciau yr oedd gan bobl ddiddordeb mewn clywed mwy amdanynt 32

Beth nesaf? 35

Sut ydym yn defnyddio’r syniadau a’r adborth a dderbyniwyd 35

Beth mae’r Cyngor eisoes yn ei wneud ar Newid Hinsawdd ac Ecoleg 35

Sut i gadw mewn cysylltiad 36

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Cefndir Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych

Ar 2 Gorffennaf 2019 datganodd Cyngor Sir Ddinbych Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ac ers hynny mae wedi bod yn datblygu ei gynlluniau i ddod yn Gyngor ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030 fan bellaf.

Cyngor di-garbon net



Er mwyn i’r Cyngor fod yn ddi-garbon net erbyn 2030, bydd angen i gyfanswm y carbon a ryddhawn fel Cyngor fod yn gyfartal neu’n llai na chyfanswm y carbon sy’n cael ei ddal a’i storio (amsugno) gan goed, cynefinoedd a chyfundrefnau rheoli tir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei reoli.

Mae angen i’r Cyngor leihau ei allyriadau carbon deuocsid o’r ffynonellau canlynol, sy’n cael eu hadnabod ar y cyd fel allyriadau cwmpas 1, 2 a 3:

- Defnyddio ynni yn ein hadeiladau (gwres a thrydan)
- Defnyddio trydan mewn goleuadau stryd
- Defnyddio tanwydd yng ngherbydau fflyd y Cyngor
- Defnyddio tanwydd wrth i’n staff deithio i gyflawni eu gwaith (teithiau busnes)

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- Defnyddio tanwydd wrth i’n staff deithio i’w gweithle (cymudo staff)
- Y dŵr a ddefnyddiwn yn ein hadeiladau a'n gweithrediadau
- Y gwastraff a gynhyrchir gan y Cyngor
- Adeiladau a brydlesir i’r Cyngor i gyflawni ei waith
- Adeiladau yr ydym fel Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu prydlesu i eraill
- Beth yr ydym yn ei brynu fel Cyngor (ein cadwyn gyflenwi)

Bydd y ffocws dechreuol ar ostwng ein allyriadau carbon deuocsid cyn belled a chyn gynted ag sy’n ymarferol bosibl. Ni fyddwn yn gallu datgarboneiddio’n gyfan gwbl a byddwn yn ceisio gwrthbwyso ein ôl troed carbon gweddilliol trwy gynyddu niferoedd a/neu grynodiad coed, cyfundrefnau rheoli cynefinoedd a thir sy'n amsugno carbon.

Cyngor Ecolegol Gadarnhaol

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030 bydd angen i ni gynnal yr holl fusnes – prosiectau, gweithrediadau ac ymyraethau a gyflawnwn fel sefydliad – mewn modd sy’n darparu ecosystemau amrywiol, cysylltiedig, addasadwy a gwydn ac o faint, graddau a chyflwr sy’n cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Bydd dull gweithredu fesul prosiect, fesul ymyrraeth a fesul gweithgaredd yn cael ei ddefnyddio. Lle bo hynny’n bosibl, bydd angen i’r Cyngor beidio â gwneud unrhyw niwed i fioamrywiaeth. Os yw’n amhosibl osgoi niwed, bydd disgwyl i swyddogion adolygu gwerth ac effaith cyffredinol y gweithgaredd a’i ddarparu mewn modd sy'n cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth.

Cyrraedd ein nodau

Bydd y Cyngor yn cynhyrchu cynllun gweithredu 9 mlynedd a fydd yn cynnwys camau gweithredu y bydd angen eu cymryd bob blwyddyn er mwyn galluogi’r Cyngor i gyrraedd ei nodau o fod yn ddi-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.

Ar y sail hon y dechreuom ein cyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd ym mis Ionawr 2020.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Cefndir y cyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd ar gyfer yr Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol

Parodd y cyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd o 21 Ionawr tan 25 Chwefror 2020.

Beth a ofynnom

Gofynnom i’r cyhoedd am adborth ynglŷn â nodau’r Cyngor i fod yn Gyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.

Gofynnom am syniadau’r cyhoedd ynglŷn ag unrhyw gamau gweithredu penodol y gellid eu cynnwys yn y cynllun gweithredu 9 mlynedd yr ydym yn ei gynhyrchu.

Sut y gwnaethoch gyfrannu

Cyflwynodd y cyhoedd eu cyfraniadau mewn nifer o ffyrdd:

- Yn ystod cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 25 Chwefror
- Trwy lenwi ffurflen “Gofyn Cwestiwn” ar-lein
- Trwy lenwi’r ffurflen “Eich Adborth” ar-lein
- Trwy e-bost
- Trwy Twitter a Facebook

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Nifer yr ymatebion a’r adborth a gyflwynwyd

Cyflwynwyd 115 o ymatebion gan bobl sy’n byw/gweithio ledled Sir Ddinbych sef cynrychiolaeth o 0.1% o boblogaeth Sir Ddinbych.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Mynychodd dros 60 o bobl y cyfarfod cyhoeddus yn bersonol ar 25 Chwefror ac atebwyd dros 30 o gwestiynau "yn fyw" gan banel o swyddogion y Cyngor ar y noson.

Cafodd y cyfarfod cyhoeddus ei weddarlledu yn fyw a gwyliodd 104 o bobl y cyfarfod ar-lein ar y noson.

Gallwch wylio'r cyfarfod cyhoeddus yn ôl trwy ddilyn y ddolen isod: https://www.denbighshire.gov.uk/climatemeeting.

Ar-lein a dros E-bost

Cyflwynwyd 73 adborth ar-lein gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd a 6 trwy e-bost.

Twitter a Facebook

Hyrwyddom y cyfle i’r cyhoedd roi adborth trwy gyfrwng Twitter a Facebook yn ystod y cyfnod ymgysylltu.

Gwelodd 26,936 o bobl ein neges Facebook neu Twitter (“argraffiadau”). O’r rheiny cawsom 610 o "ymgysylltiadau” gan gynnwys pobl yn rhoi sylwadau, yn hoffi, yn ail-drydar ac yn clicio ar y negeseuon.

Cyflwynwyd 6 cwestiwn trwy Twitter ar noson y cyfarfod cyhoeddus gan y rheiny a oedd yn gwylio'r gweddarllediad byw.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Yr hyn a ddywedoch wrthym

Adborth cyffredinol am nodau’r Cyngor i fod yn ddi-garbon net ac ecolegol gadarnhaol

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd, rhoddwyd cyfle i roi adborth cyffredinol ynglŷn â nodau’r Cyngor. Roedd y sylwadau cyffredinol fel a ganlyn:

“Credaf ei bod yn wych bod camau yn cael eu cymryd tuag at fod yn garbon niwtral. Rwy’n cefnogi yn arbennig y cynllun i warchod ein mannau gwyrdd, hyrwyddo mynediad i natur a phlannu mwy o goed i gynyddu bioamrywiaeth”.

“Hoffem weld y cyngor yn cynhyrchu cynllun strategol i leihau allyriadau. A hefyd darparu nifer o brosiectau enghreifftiol sy’n dangos i bobl sut y bydd y newidiadau a gynllunnir yn gwella eu bywydau.”

“Beth am ymaddasu newid hinsawdd?”

“Beth am gydweithio gyda siroedd cyfagos?”

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o'r Ymateb wrth Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Gwelwyd nifer o themâu cyffredin yn adborth yr ymatebwyr ac mae'r ymatebion wedi cael eu gosod yn y grwpiau canlynol:

- Arwain trwy esiampl
- Cyfathrebu ein cynnydd
- Nid ein gweithrediadau ein hunain yn unig
- Cyllid
- Dyddiad targed
- Gwneud penderfyniadau

<u>Arwain trwy esiampl</u>

Nododd nifer o ymatebwyr y gallai'r Cyngor, trwy arwain trwy esiampl, gwneud ymdrech ar y cyd i ostwng ei allyriadau, cynyddu lefelau dal a storio carbon a gwella bioamrywiaeth, annog eraill yn y sir i wneud yr un fath.

- *"Dyma ffordd i'r Cyngor arwain y ffordd a dangos i fusnesau lleol, ysgolion, cynghorau tref ac aelwydydd beth y gellir ei gyflawni".*
- *"Ar gyfer newid hinsawdd mae arweinyddiaeth o'r pen uchaf i lawr yn hanfodol er mwyn darparu cyd-destun a fframwaith i eraill ddilyn, cefnogi ac alinio â nhw".*
- *"Rwy'n gobeithio y gall CS Ddinbych arwain llywodraethau a Chyrff Anllywodraethol eraill i ganfod ffyrdd o atal defnyddio tanwyddau ffosil".*

Roedd ymatebwyr yn annog y Cyngor i fod yn fentrus ac yn uchelgeisiol.

- *"Yn bendant, mae angen gwneud newidiadau dramatig a chymryd camau gweithredu eithafol. Ni ddylech fod ag ofn cymryd camau gweithredu amhoblogaidd".*
- *"Credaf bod y pwerau sydd gan y cyngor yn ei alluogi i gael effaith fawr yn lleol ar gyflawni'r heriau niferus sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd".*
- *"Diolch i chi am gymryd y mater hwn o ddifrif".*

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Hefyd, cydnabod beth all y Cyngor ei arwain ond hefyd beth all eraill ei arwain.

- *“Dylid cael ymdrech ehangach gan gymdeithas i ostwng carbon a cheisio dyfodol ecolegol gadarnhaol".*
- *“O safbwynt ecoleg, mae llawer y gellir ei gyflawni fel dull o'r gwaelod i fyny gyda chamau gweithredu unigolion yn cyfrannu'r cyfan”.*

Wedi dweud hynny, roedd nifer o ymatebwyr yn herio’r Cyngor na ddylai’r strategaeth na’r cynllun gweithredu ganolbwyntio ar ei weithrediadau ei hun yn unig ac y dylai'r Cyngor ddefnyddio ei ystod lawn o ddylanwadau i greu newid amgylcheddol cadarnhaol ledled y sir. Disgrifir hyn yn fanylach yn yr adran nesaf.

<u>Nid gweithrediadau’r Cyngor ei hun yn unig</u>

Roedd ymatebwyr yn awyddus i’r Cyngor ailystyried cwmpas arfaethedig y nodau di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol y tu hwnt i weithrediadau’r Cyngor ei hun.

- *“Hoffem weld newid strategol, cadarnhaol a chynhwysol yn y sir er mwyn lleihau allyriadau a gwella bioamrywiaeth. Gyda’r cyngor yn arwain trwy esiampl, ond yn estyn allan yn gyflym i’r sir gyfan y tu hwnt i weithrediadau mewnol”.*
- *“Fy arsylliad dechreuol o’r datganiad yw bod diffiniad a chwmpas y cynllun arfaethedig wedi’i gyfyngu’n bennaf i weithgareddau uniongyrchol CSDd ei hun. Er bod hyn yn dangos arweinyddiaeth dda yn y materion hanfodol hyn, nid oes cysylltiad amlwg ag eraill yn y Sir megis cymunedau, busnesau, ysgolion, amaethyddiaeth ac ati. Ni chyfeirir chwaith at sut mae'r datganiad yn gydnaws â pholisi'r Llywodraeth a chytundeb rhyngwladol. Byddai’n help pe bai CSDd yn cydnabod ei rôl fel arweinydd a chydlynydd i olrhain pob gweithgaredd a phennu a yw’r Sir gyfan yn symud i’r cyfeiriad cywir”.*

Roedd ymatebwyr yn dymuno gweld y Cyngor yn ystyried yn ei strategaeth a’i gynllun gweithredu sut y gall ddefnyddio ei ddylanwad a beth yw ei rôl y tu hwnt i hynny yn yr

agenda hwn. Roedd yr ymatebwyr yn gweld bod gan y Cyngor rôl mewn addysgu, helpu a hwyluso preswylwyr i weithredu’n unol â hynny i fynd i’r afael â newid hinsawdd ac ecoleg.

- *“Dylai’r cyngor ddangos i bobl sut y gallant fyw yn wahanol a hwyluso hynny iddyn nhw”.*



Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Cyfathrebu ein cynnydd

Y thema gref nesaf ymhlith yr ymatebion oedd cyfathrebu. Roedd ymatebwyr o’r farn ei bod yn hanfodol rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion Sir Ddinbych am waith y Cyngor mewn ymateb i’r Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol.

- *“Dylai’r Cyngor sicrhau ymhellach bod y bobl y mae'n eu cynrychioli yn deall yn union pa gamau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu cymryd mewn perthynas â newid hinsawdd a'u pwysigrwydd i ddyfodol ein cymuned".*
- *“Credwn y dylai’r cyngor achub ar bob cyfle i hysbysu’r cyhoedd o’r argyfwng hinsawdd a’r camau gweithredu y mae’r cyngor yn eu cymryd ac yn mynd i’w cymryd i oresgyn yr argyfwng. Gallai hynny gynnwys sefydlu sioe deithiol ac ymgynghoriad pellach er mwyn annog ymgysylltiad. Efallai y gellid ychwanegu micro-safle at y wefan bresennol ar gyfer yr argyfwng hinsawdd”.*
- *“Mae’n bwysig cyfathrebu trwy gydol y broses. Dylai’r Cyngor ddechrau sicrhau bod yr argyfwng hinsawdd yn amlwg ar flaen ac yng nghanol ei gyfathrebiadau”.*
- *“Wrth i gynllun gael ei ddatblygu dros y misoedd nesaf, dylid darparu’r wybodaeth ddiweddaraf mewn fformat hygyrch sy’n hawdd ei ddarllen”.*

Yn ogystal â’r Cyngor yn hysbysu’r cyhoedd o’i waith, mae rhai ymatebwyr o’r farn y dylai’r Cyngor fod yn fwy parod i gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o ddatblygu ei gynlluniau di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol.

- *“Dylai’r Cyngor ymgynghori yn barhaus; beth am banel dinasyddion?"*
- *“Ni ddylai cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan arwain at oedi cynlluniau, ond dylid ei gwneud yn hawdd i'r cyhoedd gymryd rhan yn gyflym. Gan hynny, dylid ceisio cyngor arbenigol, a dylid rhoi opsiynau i’r cyhoedd yn seiliedig ar y cyngor arbenigol hwnnw”.*
- *“Dylid cynnwys pob grŵp oedran wrth gyflawni’r nodau hyn ac yn arbennig pobl ifanc a phlant oedran ysgol”.*

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o'r Ymateb wrth Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Roedd ymatebwyr yn credu bod cyfathrebu am gynnydd y Cyngor yn bwysig er mwyn annog preswylwyr a busnesau i newid.

- *"Bydd hysbysu'r cyhoedd o'r penderfyniadau a'r camau a gymerir gan y cyngor yn annog deiliaid tai i wella eu hymddygiad eu hunain".*
- *"Codi ymwybyddiaeth a rhannu arferion gorau gyda deiliaid tai / preswylwyr preifat".*
- *"Cymell ymrwymiad i'n nod hirdymor"*

<u>Cyllid</u>

Roedd thema cyllid yn amlwg yn nifer o'r ymatebion a nodwyd bod camau gweithredu sy'n cyfrannu at niwtraledd carbon yn aml yn gamau sydd hefyd yn arbed arian.

- *"Credaf y dylid sicrhau bod cyllid digonol ar gael i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd".*
- *"Yn amlwg mae angen adnoddau er mwyn cyflawni camau gweithredu. Gan hynny, mae'n rhaid i'r Cyngor sefydlu cyllideb i fynd i'r afael â newid hinsawdd".*
- *"Hoffwn weld ymrwymiad ariannol i greu newidiadau ystyrlon sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu".*

<u>Dyddiad targed</u>

Roedd ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r ffaith bod y Cyngor wedi gosod dyddiad targed ar gyfer ei nodau di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol. Roedd y Cyngor yn cael ei herio i ddwyn y dyddiad targed ymlaen cyn 2030.

- *"Dylai'r cyngor ddwyn y dyddiad ymlaen i fod yn 'sefydliad ecolegol gadarnhaol' gan y bydd yn arwain trwy esiampl".*
- *"Dylai'r cyngor ddwyn y dyddiad ymlaen i fod yn 'sefydliad di-garbon net' gan y bydd yn arwain trwy esiampl".*

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- *“Mae gosod targed i fod yn sefydliad di-garbon net yn hanfodol er mwyn rhoi amcan clir i anelu ato. Dylai’r nod o gyflawni hyn erbyn 2030 fod yn gwbl gyraeddadwy”.*

<u>Gwneud penderfyniadau</u>

Y thema olaf yn yr ymatebion adborth cyffredinol oedd gwneud penderfyniadau. Roedd ymatebwyr yn dymuno gweld y Cyngor yn ystyried effaith ei gamau gweithredu ar newid hinsawdd ac ecoleg bob tro y gwneir penderfyniad.

- *“Dylai’r cyngor sicrhau bod lleihau a gwella’r newid hinsawdd yn ganolbwynt i bob penderfyniad a wna”.*
- *“Hoffem weld y cyngor yn mynd y tu hwnt i ofynion Deddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol, ac yn rhoi ystyriaethau hinsawdd uwchlaw popeth arall.*
- *“Darparu mesurau lles newydd ar gyfer y sir yn seiliedig ar wella newid hinsawdd ac ecoleg”.*

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Syniadau ar gyfer polisïau yn ein strategaeth

Polisi yw egwyddor i arwain penderfyniadau, mae’n ddatganiad o fwriad, rhagosodiad, synnwyr y fawd.

Yn ein Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol, rydym yn bwriadu cynnwys cyfres o bolisïau i arwain y Cyngor yn ei waith o reoli materion cyhoeddus yn y sir. Y polisïau hyn fydd y sylfaen sy’n cefnogi'r sefydliad i symud at fod yn ddi-garbon net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.

Rhoddodd nifer o ymatebwyr enghreifftiau i ni o bolisïau y gellid eu hystyried i’w cynnwys yn y ddogfen strategaeth. Mae’r syniadau a gyflwynwyd ar gyfer polisïau i’r Cyngor wedi cael eu didoli’n ddau grŵp er mwyn eu hystyried ymhellach:

- Polisïau a fydd yn gostwng allyriadau carbon deuocsid
    - Perfformiad
    - Polisïau cynllunio
    - Polisïau cyllid ac ariannu
    - Polisïau busnes a datblygu economaidd
    - Polisïau tai
    - Polisïau rheoli ynni
    - Polisïau caffael
    - Polisïau arlwyo
    - Polisïau rheoli digwyddiadau
    - Polisïau gwastraff ac ailgylchu
    - Polisïau ffyrdd
    - Polisïau rheoli fflyd cerbydau
- Polisïau a fydd yn cynyddu lefelau dal a storio carbon a/neu’n gwella bioamrywiaeth
    - Polisïau cynllunio
    - Polisïau tir y cyhoedd
    - Polisïau rheoli tir a dŵr
    - Polisïau isadeiledd gwyrdd

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

POLISÏAU GOSTWNG ALLYRIADAU CARBON DEUOCSID

Perfformiad:

- Dylai mynd i’r afael â'r argyfwng hinsawdd fod yn gynwysedig yn amcanion perfformiad personol pob un o weithwyr y cyngor.
- Dylai pob rheolwr gwasanaeth gael targed yn seiliedig ar nodi a gostwng allyriadau carbon deuocsid.

Cynllunio:

- Dylai effaith ar yr hinsawdd a’r amgylchedd fod yn ffactor arweiniol sy’n penderfynu ar geisiadau cynllunio.
- Dylid mesurau ynni adnewyddadwy – paneli solar ar gyfer trydan a phympiau gwres o'r ddaear ar gyfer gwres – fod yn orfodol ym mhob tŷ newydd a adeiladir yn y sir.
- Dylai rhoi’r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil yn Sir Ddinbych fod yn ffactor dylunio blaenllaw yn y Cynllun Datblygu Lleol.
- Dim caniatâd cynllunio i adeiladau newydd heb y mesurau canlynol:
    - Arbed Ynni – safonau inswleiddio
    - Ynni adnewyddadwy - gwres, dŵr poeth, trydan
    - Trafnidiaeth gynaliadwy – pwyntiau gwefru cerbydau trydan
- Dim caniatâd cynllunio i ddatblygiadau sy’n seiliedig ar geir.
- Dylai’r argyfwng hinsawdd fod yn ffactor dylunio blaenllaw yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Cyllid ac Ariannu:

- Dylai rhoi’r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil yn Sir Ddinbych fod yn ffactor dylunio blaenllaw yn y system dyrannu grantiau.
- Cynyddu treth y cyngor i dalu am fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- Defnyddio arian Adran 106 a’r Ardreth Seilwaith Cymunedol er mwyn ariannu mesurau i fynd i’r afael â newid hinsawdd ac ecoleg.

Busnes a datblygu economaidd:

- Rhoi pob cefnogaeth busnes a datblygu economaidd i fusnesau sy'n helpu i ostwng allyriadau carbon deuocsid a/neu wella bioamrywiaeth.

Tai:

- Pan fydd angen newid peiriannau mewn tai cymdeithasol presennol, sicrhau bod pympiau gwres yr awyr yn cael eu gosod yn hytrach na systemau nwy/olew.
- Dylai tai y Cyngor yn y dyfodol (gan gynnwys y rheiny yn y camau cynllunio ac heb eu hadeiladu eto) fod yn gynaliadwy, *Passivhaus* neu ddi-garbon.

Rheoli Ynni:

- Dylai holl systemau gwres mewn adeiladau sy'n perthyn i'r Cyngor redeg ar ynni adnewyddadwy.
- Dylai tai y Cyngor yn y dyfodol (gan gynnwys y rheiny yn y camau cynllunio ac sydd heb eu hadeiladu eto) fod yn gynaliadwy, Passivhaus neu ddi-garbon.

Caffael:

- Dim ond cyflenwyr sy’n cyrraedd targedau allyriadau isel wrth ddarparu'r gwaith a osodir iddynt fydd yn cael contractau i weithio i’r Cyngor (e.e. glanhau draeniau).
- Dylid gwneud dewisiadau prynu sy’n darparu’r gost isaf am yr oes gyfan.
- Dylid cyflawni pob caffaeliad ar sail ‘cyfanswm cost’ gan gynnwys cost amgylcheddol yn y cyfrifiad hwnnw e.e. gwaredu gwastraff, allyriadau cludo ac ati.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Arlwyo:

- Dylai’r holl safleoedd bwyd sy’n perthyn i’r Cyngor ac a weithredir gan y Cyngor, gan gynnwys ysgolion, gynnig opsiynau deiet sydd â lefelau cynhyrchu carbon deuocsid is yn gysylltiedig â nhw, a rhedeg cynigion arbennig ar gyfer yr opsiynau hynny – gostwng eu prisiau, trwy ychwanegu premiwm bach i opsiynau eraill sy’n fwy dwys o ran carbon.
- Dylai pob ysgol i neilltuo ardal ar eu tiroedd i dyfu ffrwythau a llysiau i'w darparu i ffreuturau’r ysgolion. Dylai’r Cyngor ddarparu grant bach i’r ysgol i brynu offer llaw a chyfarpar diogelu personol.

Rheoli Digwyddiadau:

- Dylai’r Cyngor drefnu digwyddiadau mawr sydd o fudd i’r amgylchedd yn unig.

Gwastraff ac ailgylchu:

- Dylai pob anheddiad sy’n fwy na maint penodol gael canolfan fenter ailddefnyddio gwastraff. Ardal nwyddau sy'n 'rhy dda i'w tipio' ar raddfa fawr, gan annog mentrau bach i ddefnyddio’r adnodd (e.e. siop Tŷ'r Eos yng nghanolfan ailgylchu Bryn Lane yn Wrecsam). Gellid ymsefydlu siopau trwsio a chrefftwyr ailddefnyddio yn y cyfleusterau neu gerllaw.
- Cyflwyno model “talu am daflu” i drigolion ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff.

Ffyrdd:

- Gosod gwaharddiad dros dro ar adeiladu ffyrdd yn y sir.

Rheoli Fflyd:

- Dylai pob cerbyd sy’n perthyn i’r Cyngor redeg yn gyfan gwbl ar drydan.
- Awdurdodi prydlesu a benthyca ceir ar gyfer ceir trydan yn unig

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

POLISÏAU CYNYDDU LEFELAU DAL A STORIO CARBON A/NEU WELLA BIOAMRYWIAETH

Cynllunio:

- Pennu ceisiadau cynllunio ar yr egwyddor “elw net” i bennu a yw cynigion datblygwyr yn ecolegol gyfrifol. (Mae'r system yn rhoi gwerth ariannol i oblygiadau negyddol unrhyw gynnig ac wedyn yn ceisio camau yn y cynnig datblygu i ddigolledu'r colledion hynny sydd â buddion gwella penodol).
- Dylid cynnal asesiad o effaith gronnol ar amgylcheddau dyfrol ac ystyried yr effeithiau wrth bennu ceisiadau cynllunio

Tir y Cyhoedd:

Lleihau lefelau torri gwaith i'r gofynion sylfaenol.

- Rhoi’r gorau i chwistrellu chwynladdwr ar ochr palmentydd.
- Ymestyn y polisi torri ymylon ffyrdd ar gyfer bioamrywiaeth i ardaloedd preswyl yn y Sir.
- Dim plastig mewn mynwentydd (e.e. blodau/deiliach artiffisial anfioddiraddadwy, potiau planhigion, deunydd lapio planhigion a tuswau blodau, cerfluniau ac addurniadau ac ati) sy’n bygwth bywyd gwyllt a llygru dyfrffyrdd.

Rheoli tir a dyfrffyrdd:

- Dylai bioamrywiaeth fod yn ffactor blaenllaw wrth wneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu wrth reoli tir trefol a gwledig.
- Ymrwymiad i gynnal afonydd a gynhwysir yn “natganiad cenhadaeth” y Cyngor.
- Gwneud cynyddu bioamrywiaeth a lleihau perygl llifogydd yn ffactorau blaenllaw wrth ystyried rheoli afonydd a rhostir.

Isadeiledd Gwyrdd:

- Gosod isadeiledd ar holl adeiladau’r Cyngor.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Syniadau ar gyfer prosiectau yn ein cynllun gweithredu

Cyflwynwyd nifer o syniadau ar gyfer prosiectau fel rhan o’r cyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd.

Un awgrym oedd creu ‘cronfa’ syniadau y gellid ei defnyddio pan fyddai’r amser yn iawn yn strategol a hefyd creu rhestr fer o’r enillion mwyaf a’r enillion hawsaf i’r Cyngor eu darparu.

Gwnaed y pwynt hefyd, wrth geisio gwneud newidiadau yn y sir ehangach bod yn rhaid i unrhyw gamau a gymerir fod yn deg ac yn flaengar, gan gymryd yr agwedd bod y ' llygrwr yn talu '.

Mae’r syniadau ar gyfer prosiectau/camau gweithredu a gyflwynwyd i’r Cyngor wedi cael eu didoli’n ddau grŵp er mwyn eu hystyried ymhellach:

- Prosiectau sy’n gostwng allyriadau carbon deuocsid
    - O bob ffynhonnell
    - O adeiladau
    - O deithio a chludiant
    - O ddefnyddio dŵr
    - O wastraff
    - O’r gadwyn gyflenwi
    - Trwy gynyddu lefelau cynhyrchu ynni adnewyddadwy
    - Trwy newid ymddygiad
- Prosiectau sy’n cynyddu lefelau dal a storio carbon a/neu’n gwella bioamrywiaeth

Mae rhai o’r prosiectau a awgrymwyd yn mynd y tu hwnt i gwmpas arfaethedig nodau di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol y Cyngor – o weithrediadau’r Cyngor ei hun – ond maent yn cael eu cynnwys isod er cyflawnder.

PROSIECTAU GOSTWNG ALLYRIADAU CARBON

O bob ffynhonnell

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- Gwneud gostwng lefelau carbon a newid hinsawdd yn rhan o swydd ddisgrifiad pob aelod o staff.
- Rhoi targedau gostwng carbon unigol i bob maes gwasanaeth yn y Cyngor.
- Adolygu’r Cynllun Datblygu Lleol drafft ar frys er mwyn cynyddu ei effaith posibl ar ddileu allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Cynnal dadansoddiad llawn o holl oblygiadau twristiaeth i allyriadau nwyon tŷ gwydr ar y cyd â chyrff eraill er mwyn creu Gweledigaeth Twristiaeth Gwyrdd ar gyfer dyfodol y Sir.
- Gwerthuso addasrwydd pob un o’r 3 cam gweithredu cyffredinol a'r 33 cam gweithredu mwy penodol a awgrymwyd gan Gyfeillion y Ddaear ac ychwanegu’r rhain at gronfa syniadau’r Cyngor (https://policy.friendsoftheearth.uk/insight/33-actions-local-authorities-can-take-climate-change)

O adeiladau

- Cau mwy o swyddfeydd y Cyngor a symud mwy o staff i weithio o adref.
- Buddsoddi mewn insiwleiddio llawer mwy o gartrefi gan ddefnyddio arian o fusnesau ynni i helpu i gymorthdalu costau.
- Sefydlu cynllun benthyciadau i berchnogion tai i wella lefelau inswleiddio yn eu heiddo sy’n cael ei dalu yn ôl wrth i arbedion gael eu gwneud. Os yw’r cynllun hwn eisoes yn bodoli, ei hyrwyddo yn ehangach i breswylwyr.
- Darparu offer monitro ynni i ysgolion a gadael iddynt reoli eu defnydd ynni eu hunain yn gyfan gwbl, yn enwedig o ran gwresogi.
- Archwilio a yw canoli neu datganoli staff y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar ostwng allyriadau yn gyffredinol.
- Cyflogi mwy o staff mewnol i gynnal a chadw adeiladau, goleuadau stryd ac ysgolion yn effeithiol er mwyn gostwng allyriadau carbon.

O deithio a chludiant

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Isadeiledd Cerbydau Trydan:

- Gosod pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan (CT) ledled y sir er mwyn gwefru fflyd CT y Cyngor ei hun ond hefyd i fod ar gael i’r cyhoedd ei ddefnyddio.
- Gosod isadeiledd CT mewn lle er mwyn cynorthwyo i drosglwyddo i gludiant sydd ag allyriadau isel ac er mwyn rhagdybio'r galw am isadeiledd felly, y byddwn ni fel cymdeithas yn ddibynnol iawn arni cyn bo hir.

Teithio Llesol:

- Cynnal arolwg gyda staff Neuadd y Sir sy’n gorlenwi’r maes parcio yn ddyddiol, pam y maent yn dewis dod i’r gwaith mewn car, a beth fyddai’n gwneud iddynt newid.
- Gosod llwybr beicio pwrpasol o Ddinbych i Ruthun fel bod modd i bobl ei ddefnyddio i deithio i’r gwaith neu’r ysgol.
- Gwella’r rhwydwaith llwybrau beiciau.
- Llunio a darparu ymgyrch i annog a hwyluso ysgolion i sefydlu bysiau cerdded i’r ysgol.
- Mynd am fwy o gyllid Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru, ar y cyd â siroedd eraill o bosibl, fel bod modd agor llwybrau hirach, ar hyd hen reilffyrdd efallai.
- Asesu opsiynau ar gyfer cefnffyrdd rhwng aneddiadau ar gyfer Teithio Llesol a'u cynnwys mewn cynlluniau Teithio Llesol. Gellir gwrthweithio teithiau hirach a thirwedd anodd gyda thechnoleg beiciau trydan.
- Prynu nifer fechan o feiciau trydan ymarferol, neu dod i drefniant gyda siop feiciau, fel bod y Cyngor yn gallu cynnig benthyciadau beiciau trydan am dymor canolig. Bydd hyn yn galluogi pobl i weld sut y gallai beiciau trydan weithio o amgylch eu bywydau, ac a oes modd eu defnyddio yn lle car. Gellid cynnal sioe deithiol beiciau trydan trwy ddarparu’r beiciau i grwpiau cymunedol sydd wedyn yn cynnal digwyddiadau i hyrwyddo’r beiciau.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

*Teithio ar fysiau:*Cynnal astudiaeth ddichonoldeb i ganfod faint o bobl sy’n teithio i Ysbyty Glan Clwyd ac yn ôl o brif drefi’r Sir gyda’r bwriad o roi gwasanaethau bysiau rheolaidd mewn lle (bob 10/15 munud dyweder) o’r prif drefi i’r ysbyty naill ai am ddim neu am gost llawer is er mwyn gostwng nifer y siwrneiau yn ogystal â lliniaru problemau parcio yn yr ysbyty.

- Gweithio gyda gwasanaethau bysiau Arriva i ddarparu bysiau gyda rheseli beiciau a hwyluso defnyddio beiciau a thrafnidiaeth gyhoeddus i deithio i’r gwaith er mwyn lleihau nifer y ceir a ddefnyddir. Mae’r model “bws a beic” hwn wedi bod yn llwyddiannus ar Vancouver Island yng Nghanada.
- Gweithio gyda Bysiau Arriva i weithredu bysiau cyflym uniongyrchol wedi’u pweru gan drydan ar gyfer gweithwyr o’r Rhyl a Phrestatyn i Ruthun trwy Ddinbych mewn llai nag awr (sy’n cymryd o leiaf 2 awr gyda newidiadau ar hyn o bryd) bob bore a phrynhawn.
- Treialu gwasanaeth sy’n rhedeg yn amlach ar wasanaeth 14 a gwasanaethau bysiau lleol eraill oherwydd y cynnydd mewn diddordeb mewn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Meysydd parcio:

- Datblygu ardoll parcio y tu allan i drefi mewn meysydd parcio sy’n gyffredinol yn hygyrch i gludiant modur yn unig ac yn cynnig parcio am ddim i gwsmeriaid. Ymchwilio i weld a ellir negyddu'r fantais parcio am ddim trwy ardoll, ffi neu dreth newydd ar barcio y tu allan i'r dref, hyd yn oed ar dir preifat.
- Adeiladu meysydd parcio rhannu ceir a lleoliadau “Parcio a Rhannu” fel cyfleusterau cost isel ar ochrau prif ffyrdd. Bydd y rhain yn annog pobl i barcio a rhannu eu siwrneiau. Byddai cyffyrdd yr A55 yn ddelfrydol, ond hefyd ar hyd ffyrdd dosbarth A rhwng canol trefi.

Monitro a chodi tâl:

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- Monitro mater gronynnol ac ansawdd aer mewn ardaloedd lle mae lefelau traffig uchel ac mewn ardaloedd diwydiannol.
- Darparu prawf er mwyn cyflwyno cynllun prisio ffyrdd fesul llwybr, yn dilyn buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus ar hyd y llwybr hwnnw. Felly Rhuthun – Dinbych dyweder, buddsoddi mewn rhedeg bws rheolaidd am gost isel rhwng y ddau leoliad, gan wneud gyrru rhwng y ddau leoliad yn llai atyniadol.

<u>O ddefnyddio dŵr</u>

- Gosod systemau casglu dŵr glaw yn holl adeiladau’r Cyngor er mwyn darparu dŵr i fflysio pob toiled (o leiaf) a defnyddio llai o ddŵr glân o’r rhwydwaith dŵr.

<u>O wastraff</u>

- Llunio a darparu ymgyrch gyhoeddus yn dweud y bydd arolygwyr gwastraff yn ymweld ag ardaloedd amrywiol i wirio ble mae’r problemau.
- Cynnal sesiynau i ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf am wastraff ym mhob cymuned leol i helpu i gael cefnogaeth i ailgylchu’n briodol, gan gynnwys tabl cymunedau e.e. y pentref gorau am ailgylchu, y dref orau am reoli gwastraff ac ati.
- Monitro allyriadau o gyfleusterau gwaredu gwastraff / llosgyddion os na wneir hynny eisoes.
- Annog cymunedau, trwy grwpiau neu arweinwyr cymunedol, i greu grwpiau ‘FreeCycle’ ar gyfryngau cymdeithasol. Mae’r rhain fel tudalennau prynu a gwerthu, ond maent yn lleihau gwastraff trwy annog pobl i rannu pethau na fyddent yn eu gwerthu.
- Dylunio a darparu pecyn cefnogaeth i ysgolion fod yn ddi-blastig.

<u>O’r gadwyn gyflenwi</u>

- Darparu mwy o randiroedd i fodloni o leiaf nifer y ceisiadau ar y rhestr aros fel bod modd i gynnyrch gael ei dyfu'n lleol.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- Rhannu cyflenwadau bwyd gan fusnesau lleol sy’n rhoi blaenoriaethau i ddarparu nwyddau di-blastig ac organig.

Trwy gynyddu lefelau cynhyrchu ynni adnewyddadwy

- Creu cyswllt rhwng ynni a gynhyrchwyd gan dyrbinau gwynt ag isadeiledd gwefru trydanol ar gyfer bysiau, ceir ac ati fel bod cerbydau trydan yn cael eu pweru gan ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol.
- Sefydlu cwmni cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Gosod paneli solar ar dir y Cyngor a defnyddio’r elw i dalu am brosiectau eraill. Er mwyn cynyddu lefelau ymgysylltu ac elw o bosibl, ystyried sefydlu rhith rwydwaith dosbarthu fel y bwriedir ei wneud yng Nghorwen ar hyn o bryd.
- Ymchwilio sut y gellid symud ymlaen â’r prosiect lagŵn llanwol ar yr arfordir. Mae gan hyn fanteision o ran cynhyrchu ynni ac amddiffyn rhag llifogydd.
- Gosod paneli solar ar eiddo sy’n perthyn i’r Cyngor a gwerthu’r ynni dros ben i’r grid cenedlaethol.
- Treialu technoleg newydd, bod yn agored i arloesi - e.e. Safle Pŵer Trydan Hydro Modiwlar.
- Diweddaru holl dai’r Cyngor gyda phympiau gwres o'r ddaear ar gyfer gwres canolog.
- Ôl-osod Paneli Solar ar bob tŷ yn Sir Ddinbych.
- Gosod paneli ffotofoltäig ar doeau ysgolion sy'n wynebu’r haul.

Trwy newid ymddygiad

- Pob rheolwr a’u timau i wylio’r rhaglen ddogfen ddiweddar ar y BBC, ‘Climate Change – The Facts’ (para 1 awr). Mae rhaglen ‘Newid Hinsawdd, Newid Byd’ ar S4C yn adnodd Cymraeg cymharol debyg.
- Sefydlu safle gwe micro ar gyfer newid hinsawdd ac ecoleg.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- Darparu cyngor ar offer megis cyfrifianellau carbon i'w defnyddio i bennu cyfraniadau ac effaith camau gweithredu a wneir gan y rheiny sy'n byw ac yn gweithredu yn Sir Ddinbych.
- Darparu adnodd i roi gwybodaeth am ôl-troed carbon yn ogystal â materion ecolegol i’r rheiny sy’n byw ac yn gweithredu yn Sir Ddinbych.
- Dylunio a darparu rhaglen hyfforddi i ddisgyblion ysgol fod yn llysgenhadon ynni i ostwng lefelau carbon.
- Sefydlu cynllun eiriolwyr cymunedol ar newid hinsawdd ac ecoleg sydd ar agor i bawb ond sy'n cael ei dargedu’n arbennig at y rheiny sydd wedi ymddeol ag sydd ag amser i’w ymrwymo.

PROSIECTAU CYNYDDU LEFELAU DAL A STORIO CARBON A GWELLA BIOAMRYWIAETH

- Darparu cyfres o brosiectau dad-ddofi tir.
- Darparu adnodd i hysbysu unigolion a chymunedau am faterion ecolegol.
- Hadu / plannu blodau gwyllt cynhenid ar laswelltir heb ei dorri a gwelyau blodau mewn mynwentydd a gadael mwy o ardaloedd heb eu torri.
- Hadu / plannu blodau gwyllt cynhenid ar laswelltir heb ei dorri a gwelyau blodau mewn trefi a gadael mwy o ardaloedd heb eu torri.
- Addasu ffiniau tir er mwyn galluogi bywyd gwyllt cynhenid i symud yn rhydd a rhoi llwybrau dianc iddyn nhw.
- Staff sy’n gweithio mewn swyddfeydd arfordirol i gynnal eu cyfarfodydd ar y traeth fel bod modd i sbwriel gael ei gasglu tra bo pynciau busnes yn cael eu trafod.
- Lleihau lefelau torri glaswellt mewn parciau – torri yr ymylon yn unig a chodi arwyddion i esbonio bod torri llai yn fuddiol i bryfetach yn ogystal â bywyd gwyllt a phobl.
- Annog ysgolion i weithio gydag elusennau (e.e. Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru) i gael mynediad at gyllid i wella bioamrywiaeth ar eu tiroedd.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- Llunio a darparu ymgyrch i gynyddu lefelau compostio yn y cartref a lleihau casgliadau gwastraff gwyrdd er mwyn sicrhau bod mwy o laswellt wedi’i dorri, planhigion marw, llwyni, blodau yn cael eu gadael yng ngerddi pobl ac yn darparu bwyd, cartref a deunyddiau nythu i infertebrata. Mae pryfaid genwair, chwilod, pryfaid ac ati yn rhan hanfodol o’r gadwyn fwyd i bob bywyd gwyllt, sy’n gostwng ar raddfa sylweddol.
- Sefydlu cronfeydd wrth gefn a ddiogelir ar ran pob un o ffermydd tenantiaeth sy'n perthyn i'r Cyngor er mwyn gwella bioamrywiaeth a chadw stoc genetig presennol.
- Cynnwys mesurau gwella bioamrywiaeth o fewn dyluniadau safleoedd yn Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Llunio a darparu prosiect partneriaeth gyda Chymdeithasau Genweirio yn y sir er mwyn i enweirwyr adrodd wrth y Cyngor am achosion o rywogaethau goresgynnol (e.e. Clymog Japan) a chael gwared ar rywogaethau goresgynnol ar ymylon dyfrffyrdd.
- Pan fydd tenantiaethau ffermio yn dod i ben, trosi o leiaf rhan o’r tir ar gyfer dal a storio carbon / bioamrywiaeth cyn ail-osod y fferm.
- Gosod border blodau gwyllt o amgylch caeau pob ysgol gynradd ac uwchradd.
- Ceisio cyllid a darparu prosiect sy’n plannu coed ychwanegol ym mhob ysgol yn Sir Ddinbych a chynnwys plant yr ysgolion yn y gwaith plannu.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Beth allai unigolion, cymunedau a busnesau ei wneud

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd derbyniwyd nifer o awgrymiadau ynglŷn â beth y gallai eraill heblaw am y Cyngor ei wneud i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecoleg.

Mae’r syniadau hyn wedi cael eu didoli yn ôl 5 categori yn seiliedig ar bwy yr oedd y cam gweithredu awgrymedig yn cael ei anelu atynt:

- Unigolion
- Cymunedau
- Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned
- Sefydliadau bwyd a diod
- Ffermwyr

<u>Unigolion</u>

- Gwneud dewisiadau carbon isel yn eich cartref e.e. paneli solar, pwmp gwres o'r ddaear, system cynaeafu dŵr glaw.
- Gwneud dewisiadau carbon isel wrth brynu car e.e. car trydan.
- Sicrhau ein bod yn cael gwared ar ein holl wastraff yn briodol ac yn y biniau cywir, gan sicrhau bod eitemau ailgylchadwy yn mynd i finiau ailgylchu ac nid bin gwastraff cyffredinol.
- Trosi o leiaf rhywfaint o’n gerddi ffrynt a chefn yn ardaloedd gwella bioamrywiaeth.

<u>Cymunedau</u>

- Cymunedau a chymdogaethau i annog ei gilydd i fyw mewn modd carbon isel.
- Trosi mannau sy’n perthyn i’r gymuned yn ardaloedd gwella bioamrywiaeth.

<u>Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned</u>

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- Cynnwys a bod yn glir ynghylch disgwyliadau yn ymwneud â gwelliannau ecolegol mewn Cynlluniau Cymdogaeth sy’n ‘perthyn’ i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned, e.e. fel yr adran bioamrywiaeth yng Nghynllun Cymdogaeth Llanfair DC sy’n ceisio gwelliant ecolegol wrth ystyried cynigion cynllunio.

<u>Sefydliadau bwyd a diod</u>

- Pob tafarn a chlwb i roi’r gorau i ddarparu gwellt gyda diodydd oni bai eu bod wedi’u gwneud o ddeunydd y gellir ei gynhyrchu mewn modd sy'n creu lefelau isel o garbon deuocsid.
- Dylai siopau prydau parod yn y sir roi ardoll ar bolystyren a gostyngiad am eich pryd nesaf os ydych yn ei ddychwelyd.

<u>Ffermwyr</u>

- Ffermwyr i ystyried dychwelyd at ddulliau traddodiadol o gynhyrchu bwyd gydag effaith amgylcheddol is (e.e. defnyddio llai o beiriannau, gwrtaith cemegol a phlaladdwyr).
- Ffermwyr i ystyried amaethyddiaeth atgynhyrchiol a allai gyfrannu at ddal a storio carbon ar raddfa fwy, gan gynnwys atal diraddio’r pridd a chyfoethogi pridd fel ei fod yn gryfach rhag effaith tywydd difrifol.
- Ffermwyr i ystyried opsiynau ar gyfer cynnwys amaeth-goedwigaeth megis dulliau “silvo-pastoral”.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o'r Ymateb wrth Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Pynciau yr oedd gan bobl ddiddordeb mewn clywed mwy amdanynt

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd cynhaliodd y Cyngor gyfarfod cyhoeddus i roi cyfle am sgwrs ddwy ffordd lle gellid darparu atebion "byw" i'ch cwestiynau.

Mae'r cwestiynau hyn wedi cael eu gosod mewn grwpiau yn ôl y pynciau yr oedd gan bobl y mwyaf o ddiddordeb mewn clywed mwy amdanynt fel a ganlyn:

- Pynciau cyffredinol e.e. cyllid, ôl troed carbon
- Gostwng lefelau carbon
- Dal a storio carbon a bioamrywiaeth
- Addasu i newid hinsawdd

<u>Cyffredinol</u>

- Ôl-troed carbon y Cyngor ar hyn o bryd ac o ba ffynonellau mae'r Cyngor yn targedu gostwng lefelau carbon.
- Enghreifftiau o'r gwahanol adrannau yn y Cyngor Sir sy'n cydweithio ar yr agenda hwn.
- Enghreifftiau o'r ffordd y mae newid hinsawdd ac ecoleg wedi cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.
- Opsiynau ar gyfer polisi cynllunio a gorfodaeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecoleg.
- Cyllid i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecoleg.
- Swyddi gwyrdd.
- Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor.

<u>Gostwng lefelau carbon</u>

- Gostwng lefelau carbon sy'n dod o wastraff, yn enwedig sut i ddefnyddio egwyddorion "economi gylchol".

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- Gostwng allyriadau o adrannau carbon dwys yn ein cadwyn gyflenwi megis gwaith trwsio ffyrdd.
- Opsiynau ar gyfer prynu’n lleol.
- Sut y gallai’r Cyngor ddefnyddio ei bwerau gorfodaeth i ostwng ymddygiad rhyddhau uchel yn y sir, e.e. busnesau yn gadael goleuadau ymlaen.
- Sut all y Cyngor annog pawb sy’n byw/gweithio yn Sir Ddinbych i ostwng eu allyriadau carbon gan gynnwys busnesau.
- Sut mae’r Cyngor yn mynd i leihau lefelau allyriadau carbon o gludiant, gan gynnwys staff yn teithio i’r gwaith ac yn ôl.
- Cefnogaeth i gartrefi ac ysgolion i fod yn garbon niwtral e.e. cyllid a grantiau.
- Cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Gosod pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan.
- Enghreifftiau o gartrefi fforddiadwy carbon isel.
- Enghreifftiau o economïau lleol cryf a chynaliadwy.
- Enghreifftiau o ddiwydiannau twristiaeth carbon isel.
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon a’r agenda ‘un blaned’.
- Mynd o amgylch heb ddefnyddio cerbydau petrol a disel.
- Lleihau carbon mewn adeiladau ysgolion presennol.

<u>Dal a storio carbon a bioamrywiaeth</u>

- Ansawdd dŵr afonydd a chyrsiau dŵr yn Sir Ddinbych.
- Plannu coed ac ail-dyfiant naturiol yn ogystal â sut y gall trigolion, ysgolion a grwpiau gymryd rhan.
- Ystad amaethyddol y Cyngor.
- Isadeiledd Gwyrdd a’r cysylltiad â lleihau llifogydd.
- Dad-ddofi tir yn naturiol.

<u>Addasu i’r hinsawdd</u>

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

- Addasu i newid hinsawdd – cynllunio i liniaru effeithiau newid hinsawdd yn enwedig ar gyflenwadau bwyd ac ynni.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o'r Ymateb wrth Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Beth nesaf?

Sut ydym yn defnyddio'r syniadau a'r adborth a dderbyniwyd

Bydd y syniadau a'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael eu defnyddio i'n helpu i ddatblygu ein Strategaeth Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Ecolegol a Chynllun Gweithredu 9 mlynedd ar gyfer y Cyngor er mwyn i ni gyrraedd ein nodau ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030. Roeddem wedi bwriadu creu strategaeth ddrafft a chynllun gweithredu er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf ac yna cyflwyno hwn i'r Cyngor Llawn yn yr hydref er mwyn cael cymeradwyaeth sefydliadol.

Fodd bynnag, gwyddom bod posibilrwydd na fydd y gwaith hwnnw yn gallu datblygu mor gyflym ag y gobeithiwyd yn wreiddiol oherwydd effaith arwyddocaol pandemig y coronafeirws ar y Cyngor. Fodd bynnag, rydym yn parhau yn ymroddedig i'n nodau ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'n cymunedau i'w cyflawni.

Unwaith y bydd ein Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecoleg mewn lle, bydd yn arwain gwaith y Cyngor i leihau allyriadau carbon, cynyddu lefelau dal a storio carbon a gwella bioamrywiaeth. Os bydd terfynau amser yn caniatáu, rydym yn bwriadu gweld y cynllun gweithredu yn dylanwadu ar broses gosod cyllideb y Cyngor o 2021/22 ymlaen a fydd yn sail i geisiadau am adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac eraill.

Beth mae'r Cyngor eisoes yn ei wneud ar Newid Hinsawdd ac Ecoleg

Mae'r Cyngor eisoes yn cymryd camau i leihau ei allyriadau carbon, cynyddu lefelau plannu coed a gwella bioamrywiaeth fel rhan o'n Cynllun Corfforaethol, 2017-2022 (https://www.sirddinbych.gov.uk/cynlluncorfforaethol). Bydd y gwaith hwn yn parhau dros y flwyddyn ariannol nesaf (2020-2021) ynghyd â nifer o gamau gweithredu sbarduno i'n helpu i roi hwb i'n llwyddiant ar yr agenda hwn. Efallai y byddai gennych ddiddordeb mewn darllen mwy am hyn yn ein papur i'r Cyngor Llawn ar 28 Ionawr: https://moderngov.denbighshire.gov.uk/documents/s35949/Climate%20Ecological%20Emergency%20Report%20WELSH.pdf?LLL=1.

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol Crynodeb o’r Ymateb wrth Ymgysylltu â’r Cyhoedd

Sut i gadw mewn cysylltiad

Cytunodd bob un o’r rheiny a gyflwynodd adborth ar-lein i dderbyn gwybodaeth a diweddariadau penodol ynglŷn â’r agenda hwn wrth i ni symud ymlaen. Defnyddir y rhestr e-bostio hon fel modd o anfon y wybodaeth ddiweddaraf ac hysbysu pobl am gyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu pellach ar yr agenda hwn.

Rydym yn ymchwilio i opsiynau i greu is-grŵp ar gyfer y Panel (panel ymgysylltu) Cyngor Sir Ddinbych a fydd yn galluogi’r Cyngor i gynnal trafodaethau ar-lein am bynciau penodol o fewn yr agenda hwn er mwyn parhau â’r drafodaeth gyda chi.

Mae cyfres o dudalennau gwe newydd yn cael eu creu ar www.sirddinbych.gov.uk er mwyn darparu gwybodaeth am newid hinsawdd ac ecoleg a chamau gweithredu parhaus y Cyngor i fynd â’r afael â hynny. Mae’r rhain yn dal i gael eu datblygu ac mae lansiad y tudalennau gwe newydd yn debygol o gael ei oedi oherwydd bod angen i’r Cyngor flaenoriaethu ymdrechion cyfathrebu mewn ymateb i’r coronafeirws.

Byddwn yn defnyddio’r cwestiynau a gyflwynoch yn ystod y cyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd i’n hysbysu o’r wybodaeth a’r pynciau yr hoffech glywed mwy amdanynt gennym, wrth i ni gynllunio’r gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu wrth fynd ymlaen.